



COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

## Adroddiad Blynyddol 2016 - 2017

*Diogelu ein cymunedau gyda'n gilydd*

---

<b>Rhagair</b>	<b>1</b>
<b>Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol hwn</b>	<b>2</b>
<b>Egluro fy mlaenoriaethau</b>	<b>3</b>
<b>Arweinyddiaeth newydd</b>	<b>4</b>
<b>Cadw ein cymunedau'n ddiogel</b>	<b>5</b>
<b>Diogelu'r rhai agored i newid</b>	<b>8</b>
<b>Cysylltu gyda chymunedau</b>	<b>12</b>
<b>Gweithio gyda'n gilydd</b>	<b>15</b>
<b>Gwario arian yn ddoeth</b>	<b>16</b>
<b>Comisiynu</b>	<b>18</b>
<b>Edrych i'r dyfodol</b>	<b>19</b>

## Rhagair

---

### Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'n fraint gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016-17.

Rwyf i wedi gweithio'n galed i ad-dalu'r ffydd a roddwyd ynof gan ein cymunedau flwyddyn yn ôl a byddaf yn parhau i wneud hynny. Rwyf i'n falch o rywfaint o'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf, ond dydw i ddim yn hunanfodlon.

Mae'r Prif Gwnstabl a fi yn datblygu perthynas gadarnhaol a phroffesiynol rhwng ein dwy swyddogaeth ond gyda'r weledigaeth sengl o wella Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth mae'n darparu. Rwyf wedi mynd ati i sicrhau'r fargen ariannol orau i Ddyfed-Powys, wedi cyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd, cynghorau, busnes a phartneriaid i ddeall blaenoriaethau cymunedol, ac wedi ail-fuddsoddi cyllid mewn gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr troseddau. Ym mis Mawrth 2017, lansiais fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, gan osod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Rwyf i'n glir ynghylch fy mlaenoriaethau: cadw ein cymunedau'n ddiogel; diogelu'r rhai sy'n agored i niwed; gwarchod ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol; a chysylltu â chymunedau. Byddaf yn parhau i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol o ran cyflenwi'r rhain ac rwyf i'n hyderus y gallwn ddod yn heddlu blaenllaw.

Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, mae'r heddlu dan bwysau ariannol a byddaf yn gweithio'n gydweithredol gydag eraill er mwyn uchafu cyfleoedd ar gyfer cydweithio'n effeithiol ac effeithlon. Nid yw plismona wedi'i ddatganoli yng Nghymru, ond mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n chwarae rhan weithredol fel partneriaid anstatudol ac rwyf i'n rhagweld y gwelir manteision diriaethol dros y blynyddoedd nesaf. Mae heriau sylweddol yn parhau o'n blaenau a llawer o waith pwysig eto i'w wneud er mwyn gwella gwasanaethau lleol i sicrhau ein bod ni'n bodloni'n dyletswyddau statudol a'r safonau uchel y dylai'r cyhoedd ddisgwyl. Yr wyf yn frwdfrydig i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwasanaethau plismona lleol er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol yn ogystal â chyrraedd y safonau uchel a ddylai'r cyhoedd eu disgwyl.



**Dafydd Llywelyn**  
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu lunio adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyflawniadau allweddol yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd. Mae'r un Ddeddf yn gosod fy nyletswydd i gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017.**

Roeddwn yn glir ar ddechrau fy nhymor yn y swydd mai diogelwch a sicrwydd Dyfed-Powys sy'n dod gyntaf. Rwyf i'n ymrwymo i gynrychioli ac ymgysylltu'n llawn gyda chymunedau a gweithredu fel llais y cyhoedd ar bob mater yn ymwneud â'r heddlu a throseddu. Rwyf i wedi galw am weithio cryf mewn partneriaeth a gweithredu cydlynol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o fy mlwyddyn gyntaf ac mae'n amlygu rhai o fy nghynlluniau allweddol ar gyfer 2017/18.

---

***Oeddech chi'n gwybod...mai fy mhenderfyniad cyntaf fel eich Comisiynydd oedd newid car fflyd y swyddog o BMW Cyfres 5 i Gar Ystâd Ford Focus.***

*Mae newid y car fflyd wedi arbed 16 ceiniog y filltir mewn costau rhedeg.*

---

## 12 Peth i wybod am eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu

### Rwy'n gyfrifol am:

- osod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
- cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
- ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli; llais y cyhoedd ar faterion plismona;
- gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
- cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl i gyfiawnder;
- comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
- penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os oes angen;
- ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;
- dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
- gosod cyllideb flynyddol yr heddlu a'r lefel praesept;

### Nid wyf i'n gyrifol am:

- leoli a chyflwyno gwasanaethau heddlu o ddydd i ddydd, sef "plismona gweithredol"; neu
- ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw'r rheng o Prif Gwnstabl.

## Fy Nghynllun Heddlu a Throseddu

Cyhoeddwyd fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ym mis Mawrth 2017 ac mae ar gael [yma](#). Mae'n egluro fy mlaenoriaethau a sut y caiff cynnydd ei fesur.

Rwyf i wedi cydweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl a'r Panel Heddlu a Throseddu yn gosod blaenoriaethau strategol a chyfeiriad Dyfed-Powys ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Crëwyd y blaenoriaethau hyn mewn ymateb uniongyrchol i adborth yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd, y sector preifat, staff a swyddogion yr heddlu a phartneriaid.

Yr egwyddorion canlynol yw'r sail ar gyfer cyflawni fy Nghynllun:

- cynorthwyo dioddefwyr;
- ymgysylltu â'r cyhoedd;
- gweithio gyda'n gilydd;
- arweinyddiaeth gadarn; a
- chyflawni gwerth am arian.


'Mae gweithio mewn partneriaeth yn sylfaenol ar gyfer cyflawni dull cydlynol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r holl wasanaethau cyhoeddus, fel lleihau cyllid, amrywiaeth cynyddol ein poblogaeth a datblygiadau cyflym o ran technoleg.'

## Fy mlaenoriaethau:

- Cadw ein cymunedau'n ddiogel;
- Diogelu'r rhai agored i newid;
- Amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol; a
- Chysylltu gyda chymunedau.

Mae fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau amgen. Rwyf i am sicrhau bod fy swyddfa'n darparu ac yn hyrwyddo fformatau cyfathrebu amgen i wella gallu'r cyhoedd i dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd. Ewch i fy ngwefan i gael y fformatau amgen.

Gweithiais gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar ddyluniad y cynllun, oedd yn gyfle i ymgysylltu â myfyrwyr ac academyddion.



### Penodi'r Prif Gwnstabl newydd

Ym mis Gorffennaf 2016, holais pa fath o Brif Gwnstabl oeddech chi am ei gael. Defnyddiais eich adborth i lywio manyleb y swydd a'r broses recriwtio. Hefyd gofynnais yr un cwestiwn i swyddogion yr heddlu a staff, a chynnwys staff a phartneriaid yn y broses ddethol.

*'Rwyf i am i drigolion lleol gael llais yn y penderfyniad mawr hwn; dyma'r cyntaf o nifer o achlysuron pan fyddaf i'n ceisio eu barn ar faterion allweddol dros y pedair blynedd nesaf.'*

Ym mis Rhagfyr 2016, dechreuodd y Prif Gwnstabl Mark Collins ei swydd. Ers iddo gael ei benodi, mae'r Prif Gwnstabl a fi wedi cydweithio'n agos, gan fynychu cyfarfodydd cymunedol gyda'n gilydd fel bod y cyhoedd yn cael cyfle i drafod materion a'n herio ni wyneb yn wyneb. Fis Mawrth diwethaf, teithiom ni ar draws Dyfed-Powys i lansio fy Nghynllun Heddlu a Throseddau i a Chynllun Cyflenwi Troseddau'r Prif Gwnstabl, sef yr ymateb gweithrediadol i'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod.



Cyfarfod â'r gymuned yn Nhre-groes, Ceredigion



Chwith i'r Dde: y Prif Gwnstabl Mark Collins a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dafydd Llywelyn

### Fy Nhîm

Rwyf i'n gweithio gyda chymorth tîm o weithwyr proffesiynol sy'n fy nghyngori ar faterion yn ymwneud ag ystadau, cyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu a phartneriaethau. Mae'r tîm yn fy nghynorthwyo i gyflawni canlyniadau effeithiol i'r cyhoedd.

Ceir manylion am fy swyddfa [yma](#).

Yn ystod y misoedd cyntaf, es ati i adolygu ac ailstrwythuro fy swyddfa ac rwyf wedi arbed dros £100,000 mewn costau gweithredu. Fel adduned i gymunedau Dyfed-Powys, nid wyf i wedi penodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau. Mae'r arbediad hwn, ynghyd ag arbedion eraill yn ystod yr ailstrwythuro, wedi'i ailfuddsoddi yn fy Nhîm Ymgysylltu Cymunedol newydd, sy'n chwarae rhan weithredol yn cysylltu ac yn gweithio gyda chymunedau, yn ogystal â chynyddu'r lefel gyllid ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid.

### Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff

Ym mis Mawrth 2017, cyflwynwyd Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff i swyddogion llinell flaen a hyd yma mae 800 o ddyfeisiau wedi'u rhoi i swyddogion heddlu a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu.

Mae'r camerâu'n ddefnyddiol ar gyfer recordio tystiolaeth a dangos tryloywder mewn plismona. Dim ond os oes angen plismona y bydd swyddogion yn recordio.



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dafydd Llywelyn gyda'r Prif Gwnstabl Mark Collins yn lansio'r camerâu.

Mae cyflwyno camerâu fideo a wisgir ar y corff yn gam cadarnhaol ar gyfer y cyhoedd.

Mae'r defnydd o gamerâu yn cefnogi tryloywder mewn plismona, a bydd yn hwyluso ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion. Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i ofyn am ddarn o ffilm ohonynt o fewn 31 diwrnod i unrhyw ddigwyddiad. Rwy'n hyderus y bydd hyn yn gwella gwasanaethau plismona.'

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



Yn ystod 2016/17, buddsoddais gyfanswm o £229,806 mewn gwasanaethau i leihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol. Parhaodd Grŵp Gwalia i wreiddio a datblygu'r gwasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws Dyfed-Powys. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y gwasanaeth 489 atgyfeiriad, gyda 262 o'r rhain ar gyfer gweithgaredd gorfodi, 171 ar Mewn 22 o'r achosion hyn cafwyd cytundeb cadarn mwing y ddau barti fu'n ymwneud â chyfryngu, gydag achosion eraill ar waith. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2017, roedd 104 o achosion yn fyw ar y llwyth achosion i'w trafod mewn cyfarfodydd datrys problemau amlasiantaethol, gan arwain at gyflawnwyr yn derbyn llythyrau o rybudd a chyrrff partner yn cytuno ar weithredu i ddatrys problemau fel aflonyddu geiriol, sŵn a fandaliaeth. Caewyd cyfanswm o 254 o achosion yn ystod y flwyddyn. Roedd llythyrau cynghori'n effeithiol yn datrys y mwyafrif o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel is, gan gyfrif am 44% (112) o'r achosion a gaewyd.

### Rhaglen Cyllido Cymunedol

Yn 2016/17, gwnes i'n siŵr fod grant ar gael i gymunedau Dyfed-Powys i gefnogi gweledigaeth y Cynllun Heddlu a Throseddau. Roedd cyfanswm o dros £80,000 o gyllid ar gael i dros ugain o brosiectau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar fy ngwefan.

### Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau



Yn ystod 2016/17, buddsoddais gyfanswm o £350,000 yn y gwasanaethau cyfiawnder troseddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau ar draws Dyfed-Powys.

Derbyniodd y gwasanaethau tua 648 o atgyfeiriadau drwy'r flwyddyn, gydag 85 unigolyn yn derbyn triniaeth. Yn ogystal â'r rheini a atgyfeiriwyd am asesiad a chymorth, bydd unigolion yn y ddalfa wedi derbyn cyngor ar leihau niwed ac ymyriadau cryno heb gael triniaeth. Mae gwasanaethau hefyd yn ymgymryd â gwaith ymestyn mewn cymunedau ac yn darparu gwasanaethau iechyd ataliol. Yn ystod eu triniaeth, gwnaeth dros 50% o glei entiaid leihau eu defnydd o sylweddau a'r troseddau cysylltiedig. Nodwyd canlyniad cadarnhaol i 45% o'r cleientiaid oedd yn gadael eu triniaeth; mae hyn yn cynnwys canlyniadau fel cwblhau'r rhaglen triniaeth a llwyddo i atal rhag defnyddio cyffuriau.

Caiff rhagor o waith ei wneud yn y flwyddyn nesaf i wella llwybrau atgyfeirio a gweithio gyda throseddwr i gynyddu eu cymhelliant i ymgysylltu â'r gwasanaethau.

**Dywedoch chi... i'r afael â phroblemau cyffuriau gan gynnwys tyfu, delio a masnachu cyffuriaus.**



### Cynllun Diogelwch Ffordd

Rhaglen grantiau oedd Cynllun Ffordd i Ddiogelwch Dyfed-Powys, a gyllidodd brosiectau oedd yn cefnogi gweithredu cydlynol gan bobl i annog defnydd mwy diogel o'n ffyrdd yn Nyfed-Powys.

#### Perfformiad mewn Addysg

Mae'r prosiect Perfformiad mewn Addysg yn cyflwyno addysg i bobl ifanc ar y peryglon maent yn eu hwynebu ar ffyrdd Dyfed-Powys. Mae'r prosiect wedi'i dargedu'n benodol at grwpiau oedran sydd ar fin dechrau defnyddio'r ffyrdd yn annibynnol, nod y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth o'r peryglon a'r risgiau ynghlwm â bod yn yrrwr ifanc, dangos a herio gyrru gwrthgymdeithasol a chynyddu dealltwriaeth o effaith negyddol bosibl y gall teithwyr eu cael ar yrrwr.

#### Ymchwil Gyrrwr Ifanc Heddlu Dyfed Powys

Mae tua chwarter o holl wrthdrawiadau traffig ffordd ein rhanbarth yn cynnwys oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed. Nod y prosiect ymchwil hwn yw canfod sut i gyrraedd yr oedolion ifanc hynny. Bydd yr ymchwil yn dadansoddi data sydd eisoes yn bodoli i ddynodi'r ffactorau risg. Unwaith y caiff y risgiau eu diffinio'n glir, gall gwaith ddechrau ar adeiladu ymyriad sy'n ystyried technegau newid ymddygiad.

### Ymchwil Gyrrwr Hŷn Heddlu Dyfed Powys

Mae ystadegau'n awgrymu bod oedolion hŷn 65 oed a throsodd mewn perygl uwch o gael eu 'lladd neu anafu'n ddifrifol' mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd. Amcan y prosiect hwn yw gweld sut rydym ni'n cyrraedd yr oedolion hŷn hyn. Bydd yr ymchwil yn dadansoddi data sydd eisoes yn bodoli i ddynodi'r ffactorau risg. Unwaith y caiff y risgiau eu diffinio'n glir, gall gwaith ddechrau ar adeiladu ymyriad sy'n ystyried technegau newid ymddygiad.

#### Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rhaglen ymyrryd benodol oedd hon a'i nod oedd delio â phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ymddygiad risg uchel o ran diogelwch ffordd. Roedd y prosiect yn targedu pobl ifanc yn ardal Dyfed Powys rhwng 16 a 25 oed. Roedd y prosiect yn cynnwys partneriaid fel y gwasanaethau tân, heddlu ac ambiwlans ac ymgysylltodd â thros 300 o bobl dros gyfnod o 12 mis. Cynhaliwyd 24 o sesiynau ar draws ardal Dyfed Powys.



### Ymchwil

#### Cynhadledd Flynyddol Dydd Gŵyl Dewi

'Troseddoli rheolaeth gymhellol: cynyddu amddiffyniad i ddioddefwyr'

Cynhaliais fy Nghynhadledd Flynyddol Dydd Gŵyl Dewi gyntaf ar y 1af o Fawrth 2017. Nod y gynhadledd oedd dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i ystyried sut y gallwn wella ein hymateb i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn y pen draw gwella diogelwch dioddefwyr.

Traddodwyd y ddarlith allweddol ar droseddoli rheolaeth gymhellol gan yr arbenigwr rhyngwladol nodedig yr Athro Evan Stark. Cafwyd cyflwyniadau hefyd gan Brifysgol Aberystwyth, Cymorth i Ferched Cymru a Gwasanaeth Eryl y Goron ar eu meysydd arbenigedd.

Bydd fy nghynhadledd nesaf ym mis Mawrth 2018 yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a phlisma. Fel yr arweinydd heddlu cenedlaethol ar iechyd meddwl, Prif Gwnstabl Mark Collins fydd y prif siaradwr ochr yn ochr â'r Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth.



Un o'r siaradwyr yn fy Nghynhadledd Dydd Gŵyl Dewi

### Bwrdd Ymchwil

Ym mis Ionawr 2017, cynhaliais y cyfarfod gyntaf o Fwrdd Ymchwil newydd gyda Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r Bwrdd Ymchwil yn gyfuniad o bartneriaid academiaidd ac arbenigwyr plisma fydd yn comisiynu, derbyn, ystyried ac ymateb i ymchwil sy'n cefnogi Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae ymchwil yn ein helpu i ddeall a yw ein gweithgareddau plisma'n effeithiol ac effeithlon ac mae'n ein cynorthwyo i nodi meysydd lle gallwn wella ein gwasanaethau.

Yn gynnar yn 2017, comisiynais Brifysgol Aberystwyth, ar y cyd ag Undeb Amaethwyr Cymru, i gynnal arolwg o Drosedd yng Nghefn Gwlad i edrych ar sut mae ffermwyr yn cael eu heffeithio gan drosedd yng nghefn gwlad, effaith y drosedd honno a sut mae wedi effeithio arnyn nhw. Caiff canlyniadau'r arolwg eu defnyddio i lywio ymateb Heddlu Dyfed-Powys i drosedd yng nghefn gwlad a dynodi anghenion hyfforddi staff a swyddogion.

### Seminar Ymchwil

Ym mis Hydref 2017, rwyf yn bwriadu dod â phartneriaid academiaidd, arbenigwyr mewn ymchwil plisma a staff a swyddogion yr heddlu at ei gilydd i rannu eu hymchwil a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd tystiolaeth ymchwil mewn plisma. Bydd y digwyddiad hefyd yn hyrwyddo cydweithio cryfach rhwng yr heddlu a phartneriaid academiaidd a staff cymorth a swyddogion yr heddlu i adeiladu partneriaethau gydag addysg uwch a phellach.

### Cefnogi Dioddefwyr

Yn ystod 2016/17, bûm yn gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i ddiogelu plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion agored i niwed.

'Rwyf i am sicrhau bod dioddefwyr troseddau'n gallu manteisio ar system gymorth sy'n darparu un pwynt cyswllt a gwasanaeth symlach.'

### Diogelu plant



Parhaodd Llamau i ddarparu gwasanaeth adrodd yn ôl a chyfryngu i blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod ar goll ac mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol. Yn 2016/17, cynhaliodd Llamau 161 o sesiynau adrodd yn ôl gyda phobl ifanc a'u teuluoedd; gyda chyfryngu'n cael ei ddarparu mewn 11 achos.



### Y Cwtsh Cymorth

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu cyllid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau i'n galluogi i gomisiynu gwasanaethau i gynorthwyo dioddefwyr troseddau. Ers mis Ebrill 2015, mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi darparu gwasanaeth atgyfeirio lleol i ddioddefwyr sydd wedi'u heffeithio gan drosedd. Yn 2016/17, buddsoddais i tua £217,000 yn y gwasanaeth hwn (y 'Cwtsh Cymorth'). Mae'r Cwtsh Cymorth yn gweithredu fel ffynhonnell ganolog o wybodaeth i ddioddefwyr ac mae hefyd yn cynnal cyfeiriadur o wasanaethau cymorth i'r dioddefwyr hynny sy'n dymuno hunan-atgyfeirio i asiantaethau. Maen nhw'n asesu anghenion pob dioddefwr er mwyn gallu rhoi cefnogaeth briodol. Mae rheolwyr achos yn gallu darparu eiriolaeth wyneb yn wyneb neu gymorth emosiynol ychwanegol i helpu dioddefwyr i ymdopi a gwella.

Yn ystod 2016/17, derbyniodd y Cwtsh Cymorth 24,941 o atgyfeiriadau. O'r rheini, pennwyd bod 6,625 (27%) angen gwasanaeth dwysach, gyda 3,455 (14%) angen asesiad o anghenion a 1,679 (7%) o unigolion yn derbyn cymorth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.


Rwyf i'n barod i weld cynnydd tymor byr mewn troseddau a gofnodir wrth i Heddlu Dyfed-Powys fynd ati i wella cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol a gweithio gyda dioddefwyr i annog pobl i gofnod troseddau.'

### Cam-drin Domestig



Er mwyn cynorthwyo'r heddlu i ymateb i'r cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig a thrais, mae consortiwm o asiantaethau dan arweiniad Hafan Cymru wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cymorth trais domestig. Nod y gwasanaeth yw lleihau risg a chynyddu diogelwch y rheini sy'n profi cam-drin domestig, yn benodol y rheini sy'n agored i niwed neu mewn risg uchel. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth drwy'r system cyfiawnder troseddol gyfan o'r pwynt cyntaf hyd at y canlyniad terfynol a thu hwnt.

Yn 2016/17, cyfanswm cost y gwasanaeth oedd £228,000. Atgyfeiriwyd 1,187 o gleientiaid i'r gwasanaeth o bob rhan o ardal yr Heddlu gyda 627 o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn ar y llwyth achosion. Darparwyd cymorth wyneb yn wyneb i 454 o unigolion, gyda 327 yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel ar ddiwedd yr achos. Rwyf i wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i wella'r ymateb amlasiantaethol i gam-drin domestig.



### Cam-drin Rhywiol



Mae New Pathways yn parhau i ddarparu gwasanaeth cymorth argyfwng i'r rheini sy'n profi cam-drin rhywiol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio'n agos gyda'r heddlu i ddarparu archwiliadau meddygol ffforensig a chynorthwyo dioddefwyr a thystion drwy gymhlethdod y broses cyfiawnder troseddol. Buddsoddais £74,000 yn y gwasanaeth yn ystod cyfnod 2016/17, gyda chyfanswm o 272 o atgyfeiriadau dros y flwyddyn. Roedd bron 50% o'r atgyfeiriadau i New Pathways yn ystod y cyfnod hwn yn achosion hanesyddol. Adroddodd 70% o gleientiaid eu bod yn teimlo'n llai isel ar ôl derbyn triniaeth, gyda 73% yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well. Parheais i weithio gydag asiantaethau partner ar draws Cymru i wella'r ymateb amlasiantaethol a gweithio at gyd-gomisiynu gwasanaethau i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig.

'Rwyf i am i ddioddefwyr deimlo'n hyderus y byddan nhw'n cael gwrandawriad ac yn cael eu credu pan fyddan nhw'n hysbysu am drosedd. Dylid cofnodi pob trosedd a digwyddiad yn gywir ac ar y pwynt hysbysu. Rwyf i am i Heddlu Dyfed-Powys weithio gyda dioddefwyr i leihau'r nifer o droseddau na chânt eu hadrodd, yn enwedig y rhai sy'n gallu cael effaith ddifrifol ar bobl fregus, fel cam-drin domestig, troseddau casineb a throseddau rhyw.'

### Bodlonrwydd Dioddefwyr

Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda dioddefwyr trosedd yn unol â gofyniad y Swyddfa Gartref i gynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr gyda grwpiau penodol o ddioddefwyr. Cynhaliwyd 783 o gyfweiliadau ac roedd y canlyniadau'n dangos bod y rhan fwyaf (83%) o ddioddefwyr a holwyd yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys fel 'profiad cyflawn'.

Ymhellach:

- roedd 95% o ymatebwyr yn fodlon gyda rhwyddineb y cyswllt;
- roedd 81% o ymatebwyr yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan yr heddlu;
- roedd 91% o ymatebwyr yn fodlon gyda'r driniaeth a dderbyniwyd gan yr heddlu; a
- roedd 77% o ymatebwyr yn fodlon gyda'r newyddion am gynnydd.

Mae diogelu pobl sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth allweddol i fi. Rwyf i'n credu bod gan bawb, yn enwedig y rheini sy'n fwyaf agored i droseddau a chamdriniaeth oherwydd eu hoed, ethnigrwydd, anabledd, iechyd, tueddfryd rhywiol ac unrhyw ffactor arall, yn haeddu byw yn ddiogel, yn rhydd o niwed a chamdriniaeth.'

**Dywedoch chi...amddiffynwch pobl agored i niwed a dioddefwyr trosedd.**

### Cyfiawnder adferol



Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi'i gomisiynu i ddarparu gwasanaeth cyfiawnder adferol a arweinir gan ddioddefwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn denu cyfraniad blynyddol o £25,000 gan fy Swyddfa.

Ymyrraeth Cyfiawnder Adferol (CA) yw unrhyw broses lle mae'r dioddefwr a'r troseddwr gyda'i gilydd yn datrys sut i ymdrin â chanlyniadau trosedd.

Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i sefydlu a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y prosesau sydd ar gael i ddioddefwyr gael mynediad at gyfiawnder adferol.

### Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol



Partneriaeth amlasiantaeth yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLI) sy'n anelu i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion, gwelliannau wrth gyflawni cyfiawnder a sicrhau hyder y cyhoedd.

Yn 2016, cynhaliodd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys adolygiad o gydwasanaethau i werthuso prosesau a gweithdrefnau, nodi gwelliannau a sicrhau system sy'n addas i'r diben. Nododd y broses hon nifer o ddarnau allweddol o waith roedd y Bwrdd yn eu hystyried yn hanfodol i gyflawni gwelliannau yn y gwasanaeth a dderbynnir gan ddioddefwyr a thystion. Ar ddiwedd 2016/17, adnewyddodd y Bwrdd ei feysydd blaenoriaeth. Mae'r rhain i'w gweld ar dudalen 19.

### Cynlluniau Gwirfoddolwyr

Rwyf i wedi parhau i gynnal nifer o gynlluniau gwirfoddolwyr gan gynnwys y Cynllun Lles Anifeiliaid, Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Panel Sicrwydd Ansawdd. Ar hyn o bryd mae 40 o wirfoddolwyr yn gweithio gyda fi yn helpu i amddiffyn pobl agored i niwed a sicrhau proffesiynoldeb o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r cynlluniau gwirfoddolwyr yn cynnig cyfle i drigolion yn ardal Dyfed-Powys gefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli. Rwyf i'n gwerthfawrogi'r cyfraniadau niferus ac unigryw a wneir gan wirfoddolwyr wrth gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Rwyf i wedi ymrwmo i gynnwys, cefnogi a datblygu ein gwirfoddolwyr.

### Polisi Gwirfoddolwyr Newydd

Ym mis Mehefin 2016, cyflwynais Bolisi Gwirfoddolwyr newydd. Mae'r Polisi'n egluro hawliau gwirfoddolwyr ac egwyddorion eang gwirfoddoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cyflwynodd y Polisi Gwirfoddolwyr rai egwyddorion allweddol:

- dim uchafswm tymor;
- 6 mis o gyfnod prawf;
- tymor cychwynnol o 3 blynedd; ac
- adolygu penodiadau bob 3 blynedd.

Rhaid i wirfoddolwyr ddangos amhleidioldeb a gwrthrychedd ar bob achlysur. Rhaid i wirfoddolwyr hefyd fyw, gweithio neu astudio yn ardal Dyfed-Powys.

Mae'r polisi gwirfoddolwyr newydd i'w weld [yma](#).

### Cynllun Lles Anifeiliaid

Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i aelodau o'r gymuned leol a gweithwyr proffesiynol o gyrrff lles anifeiliaid arsylwi, sylwi ac adrodd ar les anifeiliaid sy'n gwneud gwaith yr heddlu a'r amgylchiadau ble caiff cŵn yr heddlu eu cadw, hyfforddi, cludo a lleoli. Rhaid i hyfforddiant a lles anifeiliaid sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu fod yn agored, ac, yr un mor bwysig, rhaid gallu dangos ei fod yn agored.

Ym mis Medi trefnais hyfforddiant blynyddol lles anifeiliaid, gan ddarparu gwybodaeth sylfaenol a sgiliau y bydd eu hangen ar yr ymwelwyr.

### Ymgysylltu â'r gymuned fusnes

Rwyf i'n awyddus i adeiladu perthynas gryf gyda'r gymuned fusnes er mwyn i fi fod mewn gwell sefyllfa i ddeall y materion trosedd a phlisma sy'n effeithio arni.

Ym mis Medi 2016, yn ystod Wythnos Busnesau Bach, cynhaliais gyfres o gyfarfodydd brecwast i fusnesau, gan fanteisio ar y cyfle i ymgysylltu â chynrychiolwyr busnes lleol ynghylch datblygu fy mlaenoriaethau. Cafwyd cyngor hefyd gan gynrychiolwyr o Uned Troseddau Seiber Heddlu Dyfed-Powys ar sut y gall busnesau eu diogelu eu hunain rhag twyll.

Yn ystod 2016/17, mynychais nifer o gyfarfodydd Siambr Fasnach Lleol i drafod eu blaenoriaethau plisma.

### Panel Sicrwydd Ansawdd

Ym mis Rhagfyr 2016, sefydlais Banel Sicrwydd Ansawdd annibynnol i adolygu ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd. Mae'r Panel yn canolbwyntio ei weithgaredd ar y broses trin cwynion, ond mae hefyd yn craffu ar feysydd eraill o gyswllt yr heddlu gyda'r cyhoedd, fel trin galwadau yng Nghanolfan Cyfathrebu'r Heddlu h.y. galwadau 101 a 999.

Yng nghyfarfod cyntaf y Panel ym mis Ebrill 2017, adolygwyd 6 o ffeiliau cwynion caeedig yr Adran Safonau Proffesiynol a 9 o alwadau Canolfan Cyfathrebu'r Heddlu. Mae canfyddiadau'r Panel o ran ymarfer gorau a meysydd dysgu wedi'u cofnodi mewn adroddiad a gaiff ei archwilio yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona. Trafodir y canfyddiadau gyda'r rheolwyr perthnasol i gefnogi dysgu a gwella gwasanaethau a chaiff eu hymatebion eu cofnodi yn yr adroddiad cyhoeddus.

Yn eu cyfarfod cyntaf, casglodd y Panel fel a ganlyn:

- 'Yn gyffredinol, cynhaliwyd y mwyafrif o ymchwiliadau (i gwyn) yn drylwyr ac o fewn cyfnodau amser rhesymol.'
- 'Roedd aelodau'n teimlo bod dechrau galwadau a sefydlu anghenion y galwyr yn dda ym mhob achos.'

### Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Fy nyletswydd statudol fel Comisiynydd yw trefnu bod y rhai sydd yn y ddalfa'n cael ymweliad gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Diben y trefniadau hyn yw galluogi aelodau o'r gymuned leol i arsylwi, sylwi ac adrodd ar yr amgylchiadau y delir pobl ynddynt mewn gorsafoedd heddlu. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn darparu gwiriad annibynnol ar y ffordd mae staff y ddalfa'n cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r bobl sy'n cael eu dal gan felly gynyddu hyder y cyhoedd yn y materion hyn.

Ym mis Medi 2016, trefnodd fy Swyddfa gwrs hyfforddi ymsefydlu undydd, gan ddarparu gwybodaeth sylfaenol a sgiliau y bydd eu hangen ar ymwelwyr annibynnol newydd â dalfeydd. Hefyd, i gefnogi'r hyfforddiant cychwynnol a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, trefnais ddyddiau hyfforddi blynyddol drwy gydol cyfnod eu penodiad.

Yn 2016/17, roedd cyfanswm o 22 o Ymwelwyr o'r pedair sir yn weithredol ar y Cynllun. Cwblhaodd yr Ymwelwyr gyfanswm o 199 o ymweliadau ar draws ardal yr Heddlu, gan ymweld â 172 o unigolion a chodi pryderon am ddiogelwch ac ansawdd teledu cylch cyfyng a chyfleusterau glanweithdra.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddwyd fy Nghynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2017 – 2021 ym mis Mawrth 2017. Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb yw sicrhau:

- bod holl aelodau ein cymunedau'n cael cyfle i ymgysylltu â'r Comisiynydd drwy ffyrdd amrywiol;
- bod Swyddfa'r Comisiynydd yn darparu ac yn hybu fformatau cyfathrebu amgen ar gyfer cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau'r swyddfa;
- bod unigolion â nodweddion gwarchoddedig, fel oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, cred neu grefydd, rhyw neu dueddfryd rhywiol yn cael eu cefnogi i gyfrannu at waith Swyddfa'r Comisiynydd; a
- bod cyflogedigion a chynrychiolwyr Swyddfa'r Comisiynydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn gwella gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd.

### Y Cyfryngau Cymdeithasol



Rwyf i wedi bod yn weithgar ar Facebook a Twitter, gan ryngweithio gyda'r cyhoedd ynghylch materion plismona allweddol.

Cysylltwch â fi:

Twitter: @DPOPCC

Facebook: CHTh/Dyfed-Powys Office of the Police and Crime Commissioner

### Safonau'r Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig gan fod yr Heddlu'n cynrychioli bro Gymraeg ei hiaith.

Mae fy Swyddfa'n croesawi'r newidiadau a osodwyd ym Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn llawn. Rwyf i am sicrhau nad ydym ni'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym ni'n mynd ati i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y swyddfa.

Yn ystod 2016/17, hysbysebodd fy Swyddfa 9 swydd wag, gyda 5 o'r rheini'n gofyn am allu lefel 4 yn y Gymraeg o leiaf. Mynychodd dau aelod o fy staff gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg. Bydd cael tîm gyda sgiliau iaith amrywiol yn fy ngalluogi i a fy swyddfa i ymgysylltu'n llawn gyda phob cymuned.

Ni dderbyniodd fy Swyddfa unrhyw gwynion yn ystod 2016/17 mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau.

Mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau i'w gweld [yma](#).

---

*Oeddech chi'n gwybod ... bod tua thraean o'n cymunedau'n siarad Cymraeg.*

*47.4% yng Ngheredigion, 43.9% yn Sir Gaerfyrddin, 19.3% yn Sir Benfro ac 18.6% ym Mhowys.*

---



### Llywodraeth Cymru



Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gefnogi plismona ac yn arbennig plismona bro yng Nghymru. Rwyf i'n cyfarfod â chynrychiolwyr y Llywodraeth yn chwarterol i drafod materion plismona a throseddau allweddol.

### Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstablaid y pedwar Lluoedd Heddlu yng Nghymru yn cyfarfod yn chwarterol. Mae'r grŵp ystyried materion plismona cyfredol ac yn y dyfodol yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r model plismona cenedlaethol.

Mae'r grŵp yn trafod materion strategol allweddol ac yn nodi'r ffordd orau i weithio gyda'n gilydd i atal troseddau a chefnogi anghenion lleol gan gwrdd â gofynion plismona cenedlaethol.



Chwith i'r Dde: Comisiynydd Gwent Jeff Cuthbert, Comisiynydd De Cymru Alun Michael, Comisiynydd Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Gogledd Cymru Arfon Jones

### Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn hyrwyddo gwaith partneriaeth agosach rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaethau diogelwch cymunedol, gan ddarparu dull gweithredu amlasiantaethol i ymdrin â materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn ein cymunedau.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Llys Ei Mawrhydi, y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GIG Cymru, y Gwasanaeth Rheoli Troseddwy Cenedlaethol, Cymorth i Ddioddefwyr, Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid.

Rwyf i'n mynychu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan gyda fy nghyd-Gomisiynwyr yng Nghymru i sicrhau bod natur strategol y Bwrdd yn cefnogi ac yn ategu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

'Byddaf yn archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda heddluoedd eraill a phartneriaid i wella gallu plismona er mwyn cynyddu gwydnwch gweithrediadol'.

### Perfformiad Ariannol 2016/17

Ym mis Ionawr 2016, gosododd y Comisiynydd diwethaf y gyllideb ar gyfer 2016/17. Gyda'n gilydd, cyflenwodd fy swyddfa a'r Prif Gwnstabl y gwasanaethau yn unol â'r gyllideb ar y cyfan. Yn erbyn cyfanswm cyllideb o £93.341m, roedd cyfanswm y tanwariant yn £486k (0.5% amrywiant). Roedd y gyllideb yn tybio cyfraniad refeniw o £3.072m o'r cronfeydd i gyllido gweithgareddau dydd i ddydd ond, o ganlyniad i'r tanwario, gostyngodd y cyfraniad hwn i £2.586m.

	Cyllideb Ddiwygiedig 2016/17	Gwir Gyllideb 2016/17	Amrywiant (negyddol oherwydd arbediad)
	£'000	£'000	£'000
<b>Comisiynydd</b>	1,867	1,703	-164
<b>Prif Gwnstbl</b>	94,546	93,983	-563
<b>Gweithgareddau eraill a gyllidwyd o'r cronfeydd</b>	0	241	241
<b>Cyfraniadau net l'r/(oddi wrth) cronfeydd</b>	-3,072	-2586	486
<b>Cyfanswm grŵp (gan gynnwys y cronfeydd)</b>	93,341	93,341	0
<b>Cyllidwyd drwy grantiau a phraeseptau</b>	-93,341	-93,341	0

Ar ddiwedd 2016/17, cyfanswm y cronfeydd oedd £27.3m. Y cronfeydd hyn fydd yn bennaf yn cyllido'r rhaglen buddsoddi cyfalaf £30m dros bedair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn cyllido rhaglen adnewyddu yr ystâd ynghyd â buddsoddiad pellach mewn technoleg a phrosiectau allweddol eraill fel teledu cylch cyfyng.

I gael rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol 2016/17, gweler y [Datganiadau Cyfrifon Grŵp](#) ar gyfer 2016/17 a gyhoeddir ar ein gwefan. Mae'r Adroddiad Naratif ar ddechrau'r Cyfrifon yn grynodedb gwerthfawr o'r sefyllfa ariannol.

### Ansicrwydd

Mae chwyddiant wedi bod yn isel dros y blynyddoedd diweddar ond mae bellach yn codi. Gallai'r cynnydd hwn, ynghyd ag effaith bosibl Brexit nad oes modd gwybod ei hyd a'i lled eto, a blaenoriaethau newydd y Llywodraeth gyflwyno heriau yn y dyfodol i sector yr heddlu. Rwyf i ar hyn o bryd yn disgwyl cwblhau'r adolygiad 'Fformiwla Cyllido' sydd wedi'i gynnal yn ystod ail hanner 2016/17. Gallai'r adolygiad hwn olygu bod Dyfed-Powys yn colli cyfran sylweddol o'r cyllid canolog mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd.

Gyda fy mlaenoriaethau a'r ansicrwydd hwn ar flaen fy meddwl, ymgynghorais â'r Prif Gwnstabl, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill tua diwedd 2016/17 cyn gosod praesept y dreth gyngor ar gyfer 2017/18. Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod trigolion Dyfed-Powys yn derbyn y gwasanaethau gorau posibl ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael yn 2017/18 a gweddill fy nhymor yn y swydd.

### Teledu Cylch Cyfyng

Yn 2016/17 dechreuais adolygiad o deledu cylch cyfyng ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Rwyf i wedi addunedu i ailfuddsoddi yn y seilwaith teledu cylch cyfyng, a byddaf yn parhau i ddatblygu hyn yn 2017/18.



'Rwyf i'n gyfrifol am ystâd Heddlu Dyfed-Powys ac mae'r gwaith o gyflwyno rhaglen ystadau ar gyfer ein tir a'n hadeiladu'n mynd rhagddo, gyda'r nod o sicrhau ystâd cost effeithiol a pherthnasol yn weithrediadol sy'n cefnogi ac yn ategu'r gwasanaethau rydym ni'n eu darparu i'r gymuned.'


### Perfformiad Amgylcheddol

Mae fy nhîm Ystadau wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i nodi mentrau a thechnolegau priodol a fydd yn gwella perfformiad amgylcheddol ystadau'r heddlu. Caiff gwerth a buddion gwelliannau o'r fath eu diffinio a'u mesur ar ôl cael eu gosod.

### Effeithlonrwydd ynni

Yn 2016/17, gosodwyd boeleri ynni effeithlon mewn 6 safle. Mae pedair gorsaf ar draws Sir Benfro wedi'u hadnewyddu a'u hailfeddiannu a bydd gwaith i adnewyddu safleoedd eraill yn parhau ar draws Dyfed-Powys yn ystod 2017/18.

Cyllideb comisiynu 2016/17 oedd £1,506,988, gyda £610,675 o'r cyfanswm hwnnw wedi'i gyllido gan y Grant Dioddefwyr oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos manylion y dyraniad hwn a'r gwariant yn ôl ardal gwasanaeth.



**Oeddech chi'n gwybod...** mae bron 25% o'r holl alwadau am wasaneath i Heddlu Dyfed-Powys yn ymwneud â phryderon ynghylch lles neu ddiogelwch unigolyn.

Oddeutu 12% yn unig o'r holl alwadau am wasanaeth Heddlu Dyfed-Powys sy'n ymwneud â throsedd. Mae 11% o alwadau am gymorth yr heddlu'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac 16% yn ymwneud â digwyddiadau traffig y ffyrdd a tharfu.

'Byddaf yn sicrhau bod cyllid ar gael i gymunedau, partneriaid ac elusennau drwy amrywio brosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni fy mlaenoriaethau a gwella ansawdd bywyd ein preswylwyr'.

### Sicrhau'r fargen orau i Heddlu Dyfed-Powys

Mae adolygiad newydd o'r ffordd y caiff cyllid plismona ei ddsbarthu i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ar waith. Rwyf i wedi cyfarfod â'r Gweinidog Plismona ac wedi darparu tystiolaeth fanwl o'r pwysau penodol sy'n wynebu Dyfed Powys gyda golwg ar sicrhau trefniant cyllid teg. Fodd bynnag nid oes ymgynghoriad ffurfiol ar fformiwla newydd wedi dechrau eto ac rwyf i felly'n galw am oedi ar weithredu unrhyw fformiwla newydd tan 2019/20 neu du hwnt er mwyn caniatáu blwyddyn bontio i heddluoedd allu paratoi ar gyfer trefn gyllido newydd. Mae hyn yn hanfodol oherwydd bod angen amser i baratoi ar gyfer newidiadau sylweddol o ran cyllido a'u rhoi ar waith gan sicrhau cysondeb gwasanaethau i'r cyhoedd. Yn bennaf oll, hoffwn weld y Llywodraeth yn darparu sicrwydd cyllid yn y dyfodol dros nifer o flynyddoedd i'n caniatáu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol gyda hyder a sicrwydd cryfach.

### Troseddu ac Atal leuenctid

Yn ddiweddar, rwyf i wedi buddsoddi £180,000 ychwanegol ar draws y pedair sir i gefnogi gwaith y Timau Troseddu ac Atal leuenctid. Rwyf i am weld y timau hyn yn defnyddio'r cyllid hwn i atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol a cheisio torri cylch aildroseddu.

### Gwasanaethau Dioddefwyr a Thystion Goleudy



Gwasanaeth annibynnol yw Goleudy sy'n sicrhau bod dioddefwyr troseddau'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen o'r pwynt cyswllt cyntaf, hyd at gwblhau'r achos. Nod y gwasanaeth hwn, a ddarperir yn fewnol, yw sicrhau gwelliant sylweddol yn y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr Dyfed-Powys.

Bydd y gwasanaeth hwn yn disodli'r Cwtsh Cymorth oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol gan Cymorth i Ddioddefwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am Goleudy [yma](#).

### Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Ar ddiwedd 2016/17 diweddarodd y Bwrdd ei feysydd blaenoriaeth. Ffrydiau gwaith allweddol y dyfodol ar gyfer 2017/18 yw:

- gwella'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion – i gynnwys yn benodol;
  - dioddefwyr cam-drin domestig; a
  - bodlonrwydd tystion.
- hygyrchedd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol i gynnwys Llysoedd leuenctid;
- rheoli troseddwy.

---

*Oeddech chi'n gwybod...yn 2016, roedd tua 517,510 o bobl yn byw yn Nyfed-Powys. Roedd 17% o'r rhain yn blant 15 oed ac iau, ac roedd 24% yn oedolion hŷn 65 oed ac uwch.*

*Mae Dyfed-Powys yn gwasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio.*

---

### Elusen Dyfed-Powys Diogelach

Ym mis Medi 2017, byddaf yn lansio elusen newydd, 'Dyfed-Powys Diogelach'.

Amcanion yr elusen newydd fydd:

- atal a lleihau ofn troseddu drwy Dyfed-Powys gyfan gan weithio gydag ysgolion, grwpiau cymunedol, elusennau a Heddlu Dyfed-Powys i ymgymryd â mentrau a rhaglenni atal troseddu ac anhrefn;
- cynorthwyo gyda mesurau i leihau'r lefel o droseddu a bodloni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a rhai Heddlu Dyfed-Powys;
- cynorthwyo teuluoedd, unigolion a grwpiau agored i niwed sydd wedi dod yn ddioddefwyr trosedd ac sy'n cael eu heffeithio gan droseddu neu ofn troseddu;
- gweithgareddau eraill sy'n cefnogi gwaith yr Heddlu a'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

### Cadetiaid a Gwirfoddolwyr

Ar hyn o bryd mae 468 o wirfoddolwyr yn cynorthwyo fy swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r rhain yn cynnwys y Cwnstabiliaid Arbennig, gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu, gwirfoddolwyr y Cynllun Gwyllo Cyflymder, Cadetiaid yr Heddlu, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gwirfoddolwyr Lles Anifeiliaid a gwirfoddolwyr y Panel Sicrwydd Ansawdd.

Rwyf i'n ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac rwyf i'n anelu at gynyddu'r nifer o wirfoddolwyr dros y blynyddoedd nesaf.





COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, neu os hoffech dderbyn y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn hefyd ar gael yn Saesneg ar ein gwefan.

**Cysylltwch â'r CHTh**

**Ffôn: 01267 226440**

**E-bost: [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)**

**SCHTh, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF**